



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales  
The Record of Proceedings**

**Agoriad Swyddogol Brenhinol  
y Senedd**

**The Royal Official Opening  
of the Senedd**

**Dydd Mercher, 1 Mawrth 2006  
Wednesday, 1 March 2006**

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyrhaeddodd y Parti Brenhinol y Siambr am 12.10 p.m.  
The Royal Party arrived in the Chamber at 12.10 p.m.*

**Y Llywydd:** Croeso cynnes i bawb.

We are particularly grateful to Your Majesty The Queen and to Your Royal Highnesses for joining us on this very special day. It is my privilege and pleasure to invite Your Majesty to address the National Assembly.

**Her Majesty The Queen:** Presiding Officer, ladies and gentlemen, it is a great pleasure for me to be here on this memorable day for the National Assembly for Wales. I am delighted that this important occasion has drawn on the heritage and diversity of this land to mark the opening of this fine new building. It is a moment for the whole of Wales to celebrate.

It is fitting therefore, Presiding Officer, that you and the other Members of the National Assembly have today been joined by the Secretary of State for Wales and elected representatives of local government throughout Wales. All elected to public office bear a heavy responsibility as the servants of those who elect them to give democratic voice to their aspirations, expectations and concerns. It is to the men and women of Wales that you, the Members of this National Assembly, ultimately answer.

Your new home seeks to recognise that fundamental relationship. It emphasises the openness of democracy. It is grounded in the earth, but reminds us of the high ideals to which public service aspires. It is accessible and welcoming to all who visit, work in, or are elected to, the National Assembly. It is also a place which respects the stewardship of the world's environmental resources.

The participation of representatives from parliaments overseas in today's ceremony, including representatives of the Parliament of New South Wales in Australia who are generously presenting a new Mace to you, recognises the wider community of

**The Presiding Officer:** A warm welcome to you all.

Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Eich Mawrhydi Y Frenhines ac i Eich Uchelderau Brenhinol am ymuno â ni ar y diwrnod arbennig iawn hwn. Mae'n fraint ac yn bleser imi wahodd Eich Mawrhydi i annerch y Cynulliad Cenedlaethol.

**Ei Mawrhydi Y Frenhines:** Lywydd, foneddigion a boneddigesau, pleser o'r mwyaf imi yw bod yma ar y diwrnod cofiadwy hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Da gennyf weld bod y digwyddiad pwysig hwn wedi tynnu ar dreftadaeth ac amrywiaeth y wlad hon i ddathlu agoriad yr adeilad newydd gwych hwn. Mae'n achlysur i Gymru gyfan ei ddathlu.

Mae'n briodol felly, Lywydd, bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chynrychiolwyr etholedig o lywodraeth leol o bob rhan o Gymru wedi ymuno â chi ac Aelodau eraill y Cynulliad Cenedlaethol heddiw. Mae cyfrifoldeb mawr ar bob un sy'n cael ei ethol i swydd gyhoeddus, fel gweision y rhai sy'n eu hethol, i roi llais democrataidd i'w dyheadau, eu disgwyliadau a'u pryderon. Yr ydych chi, Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, yn atebol i bobl Cymru yn y pen draw.

Mae eich cartref newydd yn ceisio cydnabod y berthynas hanfodol honno. Mae'n pwysleisio natur agored democratiaeth. Mae wedi'i wreiddio yn y ddaear, ond mae'n ein hatgoffa o'r delfrydau aruchel yr anela gwasanaeth cyhoeddus atynt. I bawb sy'n ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol, sy'n gweithio ynddo neu sydd wedi'u hethol iddo mae'n hygyrch a dymunol. Mae hefyd yn lle sy'n parchu stiwardiaeth adnoddau amgylcheddol y byd.

Mae'r ffaith bod cynrychiolwyr o seneddau tramor yn bresennol yn y seremoni heddiw, gan gynnwys cynrychiolwyr o Senedd De Cymru Newydd yn Awstralia sy'n rhoi anrheg hael o Fyrllysg newydd ichi, yn gydnabyddiaeth o gymuned ehangach

parliamentary democracy of which the National Assembly is a part.

The presence of the Deputy Speaker of the House of Commons reminds us of the long and distinguished parliamentary tradition from which this vigorous, young Assembly springs. The Houses of Parliament in London are historic landmarks of which we, as a nation, are rightly proud. We recognise the ingenuity of the architecture as well as the skills of the craftsmen who built them. The buildings, through the famous speeches and exchanges, the great debates and historic votes, are forever associated with some of our most profound values and ideals, and have, therefore, become a symbol of our nation.

It is for you, the Members of the National Assembly, to ensure that this building is in time worthy of similar respect and affection. The skill and imagination of those who have designed and constructed this remarkable example of modern architecture have given you a dramatic setting in which to work. It shows pride and confidence—in the future of Wales, in the future of democracy, and in the central role of the National Assembly in the life of the nation. It is now up to you, by giving meaning to the ideals and aspirations of those you serve, by expressing the spirit of your rich and ancient culture, by shaping the very future of this country, to make this National Assembly a true symbol of Wales.

Presiding Officer, ladies and gentlemen, I am pleased to declare this building open and I wish you success in your future deliberations. [*Applause.*]

**The Presiding Officer:** Thank you very much. I now welcome home the Deputy Speaker of the House of Commons, Sylvia Heal.

**The First Deputy Chairman of Ways and Means and Deputy Speaker of the House of Commons (Sylvia Heal):** Your Majesty, Your Royal Highnesses, Mr Presiding Officer, Members of the Assembly, I am here today because Michael Martin, Speaker of

democratiaeth seneddol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhan ohoni.

Mae presenoldeb Dirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin yn ein hatgoffa o'r traddodiad seneddol hir, anrhydeddus y mae'r Cynulliad ifanc ac egniol hwn yn deillio ohono. Mae adeiladau'r Senedd yn Llundain yn dirnodau hanesyddol yr ydym ni, fel cenedl, yn ymfalchïo ynddynt, a hynny'n gwbl briodol. Cydnabyddwn gywreinerwydd y bensaernïaeth yn ogystal â medr y crefftwyr a'u hadeiladodd. Bydd yr adeiladau, drwy'r areithiau enwog a'r cyfnewid barn, y dadleuon mawr a'r pleidleisiau hanesyddol, bob amser yn gysylltiedig â rhai o'n gwerthoedd a'n delfrydau mwyaf creiddiol, ac felly maent wedi dod yn symbol o'n cenedl.

Mae cyfrifoldeb arnoch chi, Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, i sicrhau y bydd yr adeilad hwn yn nhrefn amser yn haeddu'r un parch a'r un hoffter. Mae medr a dychymyg y rhai sydd wedi cynllunio ac adeiladu'r enghraifft hynod hon o bensaernïaeth fodern wedi rhoi ichi leoliad dramatig i weithio ynddo. Dengys falchder a hyder—yn nyfodol Cymru, yn nyfodol democratiaeth, ac yn y rhan ganolog y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei chwarae ym mywyd y genedl. Chi sy'n gyfrifol yn awr, drwy wireddu delfrydau a dyheadau'r bobl yr ydych yn eu gwasanaethu, drwy fynegi ysbryd eich diwylliant cyfoethog a hynafol, drwy lunio dyfodol y wlad hon, am sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol hwn yn symbol gwirioneddol o Gymru.

Lywydd, foneddigion a boneddigesau, mae'n bleser gennyf ddatgan bod yr adeilad hwn ar agor a dymunaf bob llwyddiant ichi yn eich trafodaethau yn y dyfodol. [*Cymeradwyaeth.*]

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr iawn ichi. Hoffwn groesawu yn awr Ddirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin, Sylvia Heal, sydd wedi dod yn ôl adref i Gymru.

**Prif Ddirprwy Gadeirydd Ffyrdd a Moddau a Dirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin (Sylvia Heal):** Eich Mawrhydi, Eich Uchelderau Brenhinol, Lywydd, Aelodau'r Cynulliad, yr wyf yma heddiw am fod Michael Martin, Llefarydd Tŷ'r

the House of Commons, has had an operation, from which he is making a good recovery. His misfortune is my fortune, because I am Welsh born and bred, and educated at the University of Wales. So, it is my great pleasure to be here on this historic day. Speaker Martin was kind enough to lend me his words, so I am doubly fortunate.

It is a great honour to come from Westminster on this great day to this great city, and to speak on behalf of those visiting. Many have travelled far to be here, and I think that almost all continents are represented.

Sitting where I do in the chamber of the House of Commons in Westminster, I am always conscious of the history that has built our democracy, and the change that we have brought about over many years. Consequently, I am in no doubt that each Assembly or Parliament will set its own atmosphere. Most of that has to do with the people who are members, their electors and those who work there. Accordingly, the character of the nation is the heart of the democracy. However, there is something about the surroundings and the material of the building that plays a part in all of this. This Chamber is, therefore, very special. From my short acquaintance of it, it is one of today and for the future.

I appreciate the Welsh oak, the choice of so much material from Wales, and the great ecological care that has been taken over its construction. Speaker Martin, as an engineer, would have been pleased to note that the technology has allowed the water and heat to be recycled. Perhaps, one day, we will have the technology to capture and recycle the sometimes intense heat of debate.

Your Majesty, I believe this to be a special place, and I am proud to be here today as a representative of a sister Parliament, and among so many from all over the world. On behalf of my fellow Speakers and Presiding Officers, I say, in the language of this land:

Boed i'r Cynulliad hwn roi gwasanaeth gwerthfawr i bobl Cymru wrth iddynt drefnu eu materion eu hunain. [*Cymeradwyaeth.*]

Cyffredin, wedi cael llawdriniaeth. Da gennyf ddweud ei fod yn prysur wella. Ei anffawd yntau yw fy lwc innau, oherwydd cefais fy ngeni a'm magu yng Nghymru, a chefais fy addysg ym Mhrifysgol Cymru. Felly, pleser o'r mwyaf imi yw bod yma ar y diwrnod hanesyddol hwn. Bu'r Llefarydd Martin mor garedig â rhoi benthg ei eiriau imi, felly yr wyf yn hynod ffodus.

Anrhydedd o'r mwyaf yw dod o San Steffan ar y diwrnod mawr hwn i'r ddinas wych hon, a siarad ar ran y rhai sy'n ymweld â hi. Mae llawer wedi teithio ymhell i fod yma, a chredaf fod bron bob cyfandir wedi'i gynrychioli.

O eistedd yn siambr Tŷ'r Cyffredin yn San Steffan fel y gwnaf innau, yr wyf bob amser yn ymwybodol o'r hanes a greodd ein democratiaeth, a'r newid ar fyd a ddaeth dros flynyddoedd lawer. O ganlyniad, nid oes dim amheuaeth gennyf na fydd i bob Cynulliad neu Senedd ei awyrgylch neu ei hawyrgylch ei hun. Mae a wnelo hynny yn bennaf â'r bobl sy'n aelodau, eu hetholwyr a'r rhai sy'n gweithio yno. Felly, cymeriad y genedl yw calon y ddemocratiaeth. Fodd bynnag, mae rhywbeth am amgylchoedd ac adeiledd yr adeilad sy'n chwarae rhan yn hyn i gyd. Felly, mae'r Siambr hon yn arbennig iawn. O'r hyn a welais hyd yma, mae'n Siambr ar gyfer heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Gwerthfawrogaf y derw Cymreig, y dewis o gynifer o ddefnyddiau o Gymru a'r gofal ecolegol mawr a gymerwyd wrth ei hadeiladu. Byddai'r Llefarydd Martin, fel peiriannydd, wedi bod yn falch iawn o nodi bod y dechnoleg wedi ei gwneud yn bosibl i ailgylchu dŵr a gwres. Efallai, rywbryd, y byddwn yn meddu ar y dechnoleg i ddal ac ailgylchu gwres tanbaid rhai o'r dadleuon.

Eich Mawrhydi, credaf fod hwn yn lle arbennig, ac yr wyf yn falch o fod yma heddiw fel cynrychiolydd chwaer Senedd, ac yng nghwmni cynifer o bedwar ban byd. Ar ran fy nghyd-Lefarwyr a'm cyd-Lywyddion, dywedaf yn iaith frodorol y wlad hon:

Long may this Assembly give great service to the people of Wales in running their own affairs. [*Applause.*]

**Y Llywydd:** Diolch, Sylvia Heal.

**The Presiding Officer:** Thank you, Sylvia Heal.

We now come to the short ceremony of the presentation of the Mace, which is a gift from the Parliament of New South Wales.

Yn awr cawn seremoni fach i gyflwyno'r Byrlysg, sy'n rhodd gan Senedd De Cymru Newydd.

**The Deputy Speaker of the Legislative Assembly of the Parliament of New South Wales (The Honourable John Price):** Your Majesty, Your Royal Highnesses, Presiding Officers, Excellencies, my lords, ladies and gentlemen, on behalf of the Presiding Officers of the New South Wales Parliament, Speaker John Aquilina, and President Meredith Burgmann, and members of the New South Wales Legislative Assembly and Legislative Council, it is truly a great pleasure for me and the Deputy President of the Legislative Council, Amanda Fazio, to present this gift of a Mace to the National Assembly for Wales.

**Dirprwy Lefarydd Cynulliad Deddfwriaethol Senedd De Cymru Newydd (Yr Anrhydeddus John Price):** Eich Mawrhydi, Eich Uchelderau Brenhinol, Lywyddion, Eich Ardderchowgrwyddau, foneddigion a boneddigesau, ar ran Llywyddion Senedd De Cymru Newydd, y Llefarydd John Aquilina, a'r Llywydd Meredith Burgmann, ac aelodau Cynulliad Deddfwriaethol a Chyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd, pleser o'r mwyaf i mi a Dirprwy Lywydd y Cyngor Deddfwriaethol, Amanda Fazio, yw cyflwyno'r Byrlysg hwn yn rhodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

The connections between our state and Wales go further than the incorporation of your name. The links between the Welsh people and Australia date back to the earliest days of white exploration and settlement, through transportation of convicts and political activists, to the mass immigration of the nineteenth and twentieth centuries. My own electorate of Maitland was the first Australian home of Sir Samuel Griffith, a Welshman, who was one of the fathers of the Australian constitution, and the first Chief Justice of the High Court.

Mae'r cysylltiadau rhwng ein talaith a Chymru yn hŷn nag ymgorfforiad eich enw. Mae'r cysylltiadau rhwng pobl Cymru ac Awstralia yn mynd yn ôl i ddyddiau cynharaf fforio ac anheddu pobl wynion, drwy drawsgludo carcharorion a gweithredwyr gwleidyddol, i'r ymfudo mawr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Bu fy etholaeth fy hun, sef Maitland, yn gartref cyntaf i Syr Samuel Griffith yn Awstralia, sef Cymro a oedd yn un o sefydlwyr cyfansoddiad Awstralia, a Phrif Ustus cyntaf yr Uchel Lys.

In more recent years, the Hunter valley and Newcastle areas, near my home, which have a strong mining history, have enjoyed both formal and informal regional links with Wales through educational and cultural programmes. At the highest level of government, our political leaders have had the respective honour of invitations to address members from the floors of our chambers. We have links through trade, visits by delegations of elected representatives, the secondment of a parliamentary officer from New South Wales and, of course, through rugby. Our sporting links will be further entrenched through this Mace, as the goldsmith responsible for its manufacture is also the maker of the Melbourne Cup.

Yn fwy diweddar na hynny, mae ardal dyffryn Hunter ac ardal Newcastle, ger fy nghartref, a fu'n ardaloedd mwyngloddio pwysig yn hanesyddol, wedi meithrin cysylltiadau rhanbarthol ffurfiol ac anffurfiol â Chymru drwy raglenni addysgol a diwylliannol. Ar lefel uchaf y llywodraeth, mae ein harweinwyr gwleidyddol wedi cael yr anrhydedd o gael gwahoddiadau i annerch aelodau yn ein siambrau. Mae gennym gysylltiadau drwy fasnach, ymweliadau gan ddirprwyaethau o gynrychiolwyr etholedig, swyddog seneddol wedi'i secondio o Dde Cymru Newydd ac, wrth gwrs, drwy rygbi. Caiff ein cysylltiadau ym myd chwaraeon eu hategu gan y Byrlysg hwn, gan mai'r gof aur a fu'n gyfrifol am ei greu a luniodd Gwpan

Melbourne hefyd.

Now, in this year when New South Wales is celebrating its sesquicentenary of responsible government, we congratulate the National Assembly on its wonderful new building, so open and transparent, a celebration of the strength and vibrancy of the Welsh people in the twenty first century. Placing a Mace in this beautiful Chamber is a visible reminder of the heritage of representation and democracy, of giving a voice to the Welsh people and of the precious freedom of debate.

I present this Mace with the best wishes of the Parliament and people of New South Wales. [*Applause.*]

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i John Price.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Eich Mawrhydi, Eich Uchelderau Brenhinol, westeion anrhydeddus, Lywydd a chyd-Aelodau, Dydd Gŵyl Dewi da i chi i gyd.

However, is it actually St David's Day? At a church service last Sunday, I was staggered to find out that this year St David's Day has been moved from 1 March back one day to 28 February. This is because Ash Wednesday is on 1 March this year and it takes precedence over any saint's day, even the day of St David. So, we are all 24 hours late. I have been accused in the past of being late for some royal gatherings, but if I am 24 hours late, we are all 24 hours late. That is only under canon law—another area of legislation not devolved to the Assembly.

We can say that this 1 March is a very special St David's Day indeed because of your presence at this very special occasion to celebrate the official opening of the new home for the National Assembly for Wales—the crucible of our still young democracy.

On a previous royal visit to the Assembly one somewhat cynical metropolitan parliamentary correspondent referred to the old chamber

A ninnau, eleni, yn Ne Cymru Newydd, yn dathlu canmlwyddiant a hanner o lywodraeth gyfrifol, llongyfarchwn y Cynulliad Cenedlaethol ar ei adeilad newydd gwych, sydd mor agored a thryloyw, ac sy'n ddathliad o gadernid ac egni pobl Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd gosod Byrllysg yn y Siambr hardd hon yn atgoffa pawb o'r dreftadaeth o gynrychiolaeth a democratiaeth, o roi llais i bobl Cymru, ac o'r rhyddid gwerthfawr i drin a thrafod materion pwysig.

Cyflwynaf y Byrllysg hwn gyda dymuniadau gorau Senedd a phobl De Cymru Newydd. [*Cymeradwyaeth.*]

**The Presiding Officer:** Thank you very much, John Price.

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Your Majesty, Your Royal Highnesses, honourable guests, Presiding Officer and fellow Members, a good St David's Day to you all.

Fodd bynnag, ai heddiw yw Dydd Gŵyl Dewi? Mewn gwasanaeth eglwys ddydd Sul diwethaf, cefais fy synnu o glywed bod Dydd Gŵyl Dewi wedi'i symud yn ôl eleni o 1 Mawrth i 28 Chwefror. Y rheswm am hynny yw bod Dydd Mercher y Llundw ar 1 Mawrth eleni ac mae hynny'n cael y flaenoriaeth ar unrhyw ddydd gŵyl sant, hyd yn oed Dewi Sant. Felly, yr ydym i gyd 24 awr yn hwyr. Yr wyf wedi fy nghyhuddo yn y gorffennol o fod yn hwyr i ddigwyddiadau brenhinol, ond os wyf i 24 awr yn hwyr, yr ydym i gyd 24 awr yn hwyr. Dim ond o dan gyfraith yr eglwys y mae hynny—dyna faes arall o ddeddfwriaeth sydd heb ei ddatganoli i'r Cynulliad.

Gallwn ddweud fod 1 Mawrth eleni yn Ddydd Gŵyl Dewi arbennig iawn, a hynny oherwydd eich presenoldeb chi yn yr achlysur nodedig hwn i dathlu agoriad swyddogol cartref newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru—crud ein democratiaeth ym more ei hoes.

Ar ymweliad brenhinol blaenorol â'r Cynulliad dywedodd un gohebydd seneddol sinigaidd o Lundain fod yr hen siambr yn yr

next door as resembling the passenger lounge in an ageing cross-channel ferry. This new chamber, with its computers, has been compared to the control room of the starship Enterprise, so that is progress for you—boldly going into the future which, on this occasion, managed to arrive both on budget and on time.

In its design, this new building has to tread a fine line between symbolising the pride of a nation in the home of its legislature on the one hand, without tipping over into opulent overstatement on the other. That is especially important in Wales, as a nation that survived for centuries without institutions. So, we are naturally suspicious of institutions, lest they turn into establishments. This new home is a textbook example of how to walk that tightrope. Even the naming of the building as the ‘Senedd’ has occasioned a certain degree of wariness. However, I can say that we will not follow all the traditions of the original senate of ancient Rome, especially the bit where the leader of the government is stabbed in the back by a bunch of guys wearing sandals. *[Laughter.]*

The successful completion of this building is part of a growing confidence in Wales that we can get things done. If we can build buildings to be proud of to a budget, we can assuredly take decisions that affect our future. Wales can run things and do things. It is part of our maturing as a nation. The Government of Wales Bill, which received its Third Reading in the House of Commons last night, is likewise part of that maturing of our democracy.

Y gamp yn awr i ni'r gwleidyddion yw sugno ysbrydoliaeth o'r cartref teilwng newydd hwn yn ystod ein trafodaethau a'n dadleuon a'n pleidleisiau gyda phob gronyn o gryfder a hygredd sydd ar gael i ni, fel bod pobl Cymru heddiw a'r cenedlaethau a ddaw yn barnu bod yr adeilad newydd yn werth yr ymdrech. Heddiw, yr ydym i gyd yn ymrwymo'n hunain i ateb yr her honno yn eich presenoldeb chi, Eich Mawrhydi, yn ysbryd Dewi Sant ein nawddsant, ac o dan lygaid pobl Cymru. *[Cymeradwyaeth.]*

adeilad cyfagos yn debyg i lolfa i deithwyr ar hen long fferi. Mae'r siambr newydd hon, â'i chyfrifiaduron, wedi'i chymharu ag ystafell reoli'r starship Enterprise, felly dyna beth yw cynnydd—yn wrol felly, mae'n barod i wynebu'r dyfodol ac, yn ogystal â hynny, llwyddwyd i gyflawni'r gwaith o fewn y gyllideb ac ar amser.

O ran ei ddyluniad, mae'n rhaid i'r adeilad newydd hwn droedio'n ofalus rhwng bod yn symbol o falchder y genedl yng nghartref ei deddfwrfa ar y naill law, heb fod yn rhodresgar ar y llaw arall. Mae hynny'n arbennig o bwysig o gofio y bu cenedl y Cymry heb sefydliadau cenedlaethol am ganrifoedd lawer. Mae hi felly, wrth natur, yn amheus ohonynt rhag iddynt fynd yn rhy sefydliadol. Mae'r cartref newydd hwn yn enghraifft wych o'n llwyddiant i droedio'r llwybr cul hwnnw. Hyd yn oed wrth enwi'r adeilad yn 'Senedd', bu'n rhaid inni fod ychydig yn wylidwrus. Fodd bynnag, gallaf ddweud na fyddwn yn dilyn holl draddodiadau'r senedd wreiddiol yn Rhufain gynt, yn enwedig y rhan lle cafodd arweinydd y llywodraeth gyllell yn ei gefn gan griw o ddynion mewn sandalau. *[Chwerthin.]*

Mae'r llwyddiant wrth godi'r adeilad hwn yn rhan o'r hyder cynyddol sydd i'w weld yng Nghymru yn ein gallu i gyflawni pethau. Os gallwn godi adeiladau yr ydym yn falch ohonynt o fewn y gyllideb, yna gallwn, yn sicr, wneud penderfyniadau a fydd yn dylanwadu ar ein dyfodol. Gall Cymru redeg pethau a gwneud pethau drosti ei hun. Mae'n rhan o'n twf fel cenedl. Mae Mesur Llywodraeth Cymru, a gafodd Drydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin neithiwr, hefyd yn rhan o'r broses honno o aeddfedu ein democratiaeth.

The challenge for us as politicians is now to draw inspiration from this worthy new home as we deliberate, debate and vote with all the vigour and integrity at our command, so that the people who elect us in this and future generations will judge that this new building was worth the effort. We dedicate ourselves today to meeting that challenge in your presence, Your Majesty, in the spirit of St David, our patron saint, and under the people's gaze. *[Applause.]*



**The Presiding Officer:** Your Majesty, as a memento of this visit, and as an expression of our thanks to you for joining us today, I am pleased to present to you the first £5 coin, struck here in Wales at your royal mint, in anticipation of the celebration of your birthday, which is to come.

**Her Majesty The Queen:** That is very kind. Thank you very much indeed. [*Applause.*]

**Y Llywydd:** Eich Mawrhydi, i nodi'r ymweliad hwn, ac er mwyn diolch ichi am ymuno â ni heddiw, mae'n bleser gennyf gyflwyno ichi y darn £5 cyntaf i'w fathu yma yng Nghymru yn eich bathdy brenhinol, a chithau ar fin dathlu'ch pen-blwydd.

**Ei Mawrhydi Y Frenhines:** Yr ydych yn garedig iawn. Diolch yn fawr iawn ichi. [*Cymeradwyaeth.*]

*Gadawodd y Parti Brenhinol y Siambr am 12.30 p.m.  
The Royal Party departed the Chamber at 12.30 p.m.*